

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod 14 Rhagfyr 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Julian Thompson Hill

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Adroddiad Cyllid (Tachwedd 2021/22)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2021/22. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2021/22.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod Aelodau'n cymeradwyo Sylfaen y Dreth Gyngor i osod cyllideb 2022/23 fel y manylir yn Atodiad 5.

4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2021/22 sydd yn Atodiad 1. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £216.818 miliwn (£208.302 miliwn yn 20/21). Rhagwelir y bydd gorwariant o £1.349 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol (£1.179

miliwn fis diwethaf). Amlinellir y naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6.

Roedd cyllideb 2021/22 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £2.666 miliwn fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.462 miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£690,000) wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Mae arbedion o £0.781miliwn hefyd wedi eu nodi sy'n newid darpariaeth gwasanaeth mewn rhyw ffordd a chawsant eu rhannu mewn manylder gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn sesiynau briffio mis Rhagfyr.
- 1% (£0.733m) Targed effeithlonrwydd ysgolion o Gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion.

Tybir bod y cynyddiadau ffioedd a chostau a'r arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni a dirprwywyd arbedion yr ysgolion i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni.

Mae angen penderfyniad ar gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Sylfaen y Dreth Gyngor yw swm angenrheidiol yn ôl Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a ddefnyddir wrth gyfrifo Treth y Cyngor gan awdurdodau bilio a phrif awdurdodau praeseptio ac wrth gyfrifo swm y praesept sy'n daladwy gan bob awdurdod bilio i awdurdodau praeseptio mawr. Sylfaen y Dreth Gyngor yw mesur o allu awdurdod i godi treth. Fe'i fynegir o ran y nifer o eiddo sydd gyfwerth â Band D o fewn ardal awdurdod, gan ystyried esemptiadau, gostyngiadau, rhyddhad i bobl anabl ac amcangyfrif yr awdurdod o'i gyfradd casglu ar gyfer Treth y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Manylir ar naratifau gwasanaethau arwyddocaol sy'n egluro amrywiadau a risgiau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r canlynol hefyd:

6.1 Effaith y Coronafeirws - Mae'r strategaeth o weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau cyllid grant sylweddol i helpu gyda phwysau sy'n gysylltiedig â Covid. Hyd yma, mae saith hawliad gwariant wedi cael eu cyflwyno ar gyfer mis Ebrill i Hydref, am gyfanswm o £5.3 miliwn. Mae dau hawliad incwm gwerth cyfanswm o £3.1m ar gyfer chwarteri 1 a 2 hefyd wedi'u cyflwyno. Disgwylir y bydd yr hawliadau incwm yn dechrau gostwng yn awr gan fod y cyfyngiadau Covid ehangach wedi llacio, ond mae hawliadau gwariant yn debygol o barhau. Yn amlwg, bydd hyn yn dibynnu ar y sefyllfa sy'n newid yn gyflym o ran yr amrywiolyn Omicron.

6.2 Cyllidebau Corfforaethol – rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y sefyllfa'n gytbwys. Fodd bynnag, nodwyd y risgiau canlynol yn y misoedd blaenorol. Mae rhai bellach wedi'u datrys. Gallai hyn ganiatáu rhyddhau arian at raid i helpu i ariannu gorwariant gwasanaeth yn y misoedd nesaf.

- Effaith parhaus Covid ar Incwm o Dreth y Cyngor – mae hyn dal yn risg er bod perfformiad yn y maes hwn yn gwella.
- Effaith barhaus ar Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor – ar hyn o bryd mae'r gyllideb ychwanegol a gytunwyd fel rhan o un 21/22 yn ddigon i ariannu'r gwariant tybiedig yn y maes hwn – fodd bynnag mae hwn yn parhau i fod yn faes bregus a effeithir gan y sefyllfa economaidd ehangach.
- Setliad cyflog ar gyfer 2021/22 – gall y cynnig diweddar ynghylch gweithwyr llywodraeth leol a'r cyhoeddiad ynghylch cyflog athrawon gael eu hariannu o fewn y pwysau sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb 21/22. Fodd bynnag, dylid nodi bod cynnig tâl rhai nad ydynt yn athrawon eto i gael ei gytuno, ac felly mae'n parhau'n risg.

Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n ofalus dros y misoedd nesaf.

6.3 Ysgolion – Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £2.5 miliwn yng nghyllidebau

dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd i grantiau gan Lywodraeth Cymru). Yr amcanestyniad diweddaraf o falansau ysgol i'w gario ymlaen i 2022/23 yw balans credyd net o £4.164 miliwn – gostyngiad o £1.506 miliwn yn y balansau wedi'u dwyn ymlaen i 2021/22 o £5.670 miliwn. Mae gorwariant bychan o £124,000 ar gyllidebau sydd heb eu dirprwyo. Mae'r symudiad yn ymwneud yn bennaf â grantiau Covid unigryw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a gynyddodd arian wrth gefn ysgolion ac a drefnwyd bellach i'w gwario yn y flwyddyn ariannol hon ar y rhaglen dal i fyny ac adferiad Covid mewn ysgolion.

6.4 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn cyfrif y bydd gostyngiad o £1.316 miliwn mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd £0.663 miliwn yn fwy na'r £653,000 pan gymeradwywyd y gyllideb. Mae'r Gyllideb Gyfalaf o £29.3 miliwn ar gyfer 2021/22 yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£13 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£16 miliwn).

6.7 - Rheoli'r Trysorlys - Ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd cyfanswm benthychiadau'r Cyngor yn £241.621 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.68%. Roedd y balansau buddsoddi yn £11.3 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.01%.

6.6 Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor ynghlwm yn Atodiad 3. Swm y cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yw £52.93 miliwn, ac mae'r gwariant hyd yma'n £19.37 miliwn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 26 Ionawr.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y lefel o

ymgyngori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Er hynny mae cynlluniau mewn grym i ymgysylltu'n gynnar gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn ystod proses gyllidebol 2022/23.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Croesewir bod cymorth ariannol Covid wedi'i gadarnhau ar gyfer blwyddyn ariannol gyfan 2021/22 gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai o'r meini prawf wedi'u tynhau, a allai olygu y bydd yn rhaid i wasanaethau ariannol rhywfaint o bwysau ychwanegol. Mae gwaith monitro'n parhau i ddangos pwysau yn y meysydd arferol; Digartrefedd a Gwasanaethau Plant. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir y bydd yr angen yn parhau. Mae pwysau cychwynol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a bydd y rhain yn cael eu pennu'n derfynol yn rhan o broses y gyllideb.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol yn ariannol ac mae ansicrwydd mewn perthynas ag effaith barhaus Covid-19, Brexit a strategaeth ariannol Llywodraeth y DU wrth ymdrin â'r effaith ariannol hirdymor ar gyllid cyhoeddus o'r ymateb i Covid. Er bod y rhagolygon ariannol yn ansicr, mae ein sefyllfa ariannol yn iach ac mae proses gyllideb 3/5 mlynedd gadarn wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y Tîm Arwain Strategol, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu arni.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

D â'n Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.